Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Sefydledig Caergeiliog
Caergeiliog
Caergybi
LL65 3NP

10/10/2024

Annwyl Richard Williams

**Ymweliad Interim:** Medi 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Sefydledig Caergeiliog yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Hydref 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- Ymweld â dosbarthiadau
- Siarad â disgyblion
- Cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- Edrych ar waith disgyblion
- Craffu ar ddogfennaeth

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n briodol i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Maent yn cydnabod bod agweddau y gallent wella ymhellach.

**Ffocws yr ymweliad**

**Sicrhau bod athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar sut maent yn dysgu a chyflwyno'u gwaith**

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cynllunio cyfleoedd pwrpasol i athrawon gymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Maent wedi cynnwys staff mewn deialog broffesiynol ac mae athrawon wedi cael cyfleoedd gwerthfawr i rannu eu harfer â'i gilydd, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei ddatblygu ymhellach.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae'r holl athrawon wedi gweithio ar y cyd i lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ystyried yr hyn y maent yn ei wybod eisoes am bwnc a rhannu eu syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddarganfod yn ystod gwaith y tymor. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i gyfrannu yn ystod trafodaethau dosbarth ac wrth rannu eu syniadau â'u partneriaid trafod. Mae'r strategaethau hyn yn helpu i ddatblygu medrau disgyblion a'u gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pynciau sy'n cael eu haddysgu.
- Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion benderfynu ar lefel yr her yn ystod eu gweithgareddau dysgu ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion weithio â'i gilydd i gwblhau heriau ychwanegol sy'n datblygu eu medrau cydweithio a'u medrau meddwl yn effeithiol.
- Mae athrawon yn dechrau cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion benderfynu sut i gyflwyno eu gwaith. Yn yr achosion gorau, mae disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn briodol, yn penderfynu pa adnoddau sydd eu hangen arnynt a'r ffordd orau i gwblhau a chyflwyno eu tasgau dysgu.

**Sicrhau bod cyflymdra priodol i'r addysgu gan adlewyrchu arfer orau'r ysgol**

- Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n briodol ar fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Maent wedi datblygu cynlluniau gwella addas ac wedi gwneud cynnydd cadarn o ran rhoi'r rhan fwyaf o'u targedau ar waith. Enghraifft dda yw'r ffordd y mae arweinwyr wedi sicrhau bod athrawon a staff yn cael datblygiad proffesiynol buddiol i gynllunio gwersi sy'n ystyried cyflymdra a chynnydd dysgu. Caiff arweiniad gwerthfawr ei ddarparu i athrawon, sy'n cynnwys syniadau'n ymwneud â ffyrdd diddorol a difyr i ddechrau gwersi a sesiynau torfol.
- Mae uwch arweinwyr yn ymgymryd â gweithgareddau hunanwerthuso addas. Mae ychydig o'r gweithgareddau hyn, fel arsylwi gwersi, yn darparu gwybodaeth allweddol am gyflymdra gwersi a dysgu er, at ei gilydd, nid yw'r rhain yn cynnwys digon o fanylion i benderfynu ar raddau'r llwyddiant cyffredinol yn erbyn yr argymhelliad hwn.
- Wrth arsylwi addysgu a dysgu yn ystod ein hymweliad, roedd cyflymdra addas i addysgu a dysgu disgyblion. At ei gilydd, roedd gwersi'n dechrau'n sionc ac roedd cyflwyniadau athrawon yn cefnogi cynnwys y wers. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn ystyried cyflymdra'r dysgu ac yn creu ymdeimlad o bwrpas ar gyfer rhannau amrywiol o'u gwersi, gan gynnwys rhoi amser i ddisgyblion feddwl a myfyrio ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o waith disgyblion dros gyfnod yn dangos, mewn ychydig o wersi, bod disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lefel isel am gyfnodau estynedig.
- Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau i sicrhau bod gwersi'n symud ar gyflymdra addas. Er enghraifft, mae athrawon yn defnyddio craffwyr i gymryd seibiant a myfyrio ar ddysgu disgyblion ac yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion rannu eu gwaith a dysgu gan ddisgyblion eraill. Mae disgyblion hŷn yn gwerthfawrogi 'arosfannau' mewn gwersi, sy'n rhoi cyfleoedd iddynt wirio eu dealltwriaeth. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn bwrpasol yn eu dysgu.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Estyn

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6605200

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol